# The School Nursing Service

## PRIMARY SCHOOLS

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

SN1 June '13

## The School Nursing Service

School Nurses are qualified nurses with additional training to identify a child or young person's health needs. The School Nurse:

- Works with children from the age of 4 years up to when they leave school
- Provides advice and support for parents, children and young people about eating behaviour, obesity, asthma, epilepsy, allergies, sleep, bed-wetting and soiling
- Works in partnership with parents, school staff, GPs, Health Visitors and other agencies e.g. Social Services
- Provides a confidential drop-in service for young people to talk about concerns affecting their health

## What do the School Nurse Team do?

### Health Screening

During the first year of primary school your child will have health screening that includes height, weight, vision and hearing tests.

Medical tape may be used to cover eyes during all vision tests therefore please let the School Nurse team know if your child has an allergy to medical tape.

Screening will be carried out at each school in rotation during the school year.

You will receive confirmation of the results of your child's health screening. If there are any outstanding health issues the School Nurse will offer you an appointment with herself or the Community Paediatrician.

**Please complete the enclosed questionnaire and return it to the school within three days of receipt.**

### Additional Health Advice

Headlice are a common problem in the community and parents are advised to check their child's hair weekly and treat if necessary.
The School Nurse is available to advise you if necessary.

Opticians provide free eye tests for all children. If at anytime you become concerned about your child's vision either arrange an appointment with your local Optometrist / Optician.

### Immunisation

Children are offered immunisations in line with the National Vaccination Policy.

A signed consent form is required for each immunisation. This will be sent to you prior to any immunisation being due.

Further information is available from your School Nurse Team.

## Your School Nurse Team is:

Mrs Ann Hughes

# Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

## YSGOL CYNRADD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

SN1 June '13

## Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Mae Nyrsys Ysgol yn nyrsys cymwys gyda hyfforddiant ychwanegol i adnabod anghenion iechyd plentyn neu berson ifanc. Mae'r Nyrs Ysgol:

- yn gweithio gyda phlant o fod yn 4 oed hyd nes maen nhw'n gadael yr ysgol
- yn darparu cyngor a chefnogaeth i rieni, plant a phobl ifanc ynghylch ymddygiad bwyta, gordewdra, asthma, epilepsi, alergeddau, cysgu, gwlychu a baeddu'r gwely
- yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, staff yr ysgol, Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd ac asiantaethau eraill e.e. Gweithwyr Cymdeithasol
- yn darparu gwasanaeth galw i mewn cyfrinachol ar gyfer pobl ifanc i siarad am unrhyw bryderon sy'n effeithio'u hiechyd

## Beth mae Tîm Nyrsys Ysgol yn ei wneud?

**Sgrinio Iechyd**

Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd bydd eich plentyn yn derbyn sgrinio iechyd sy'n cynnwys mesur taldra, pwysau, a phrofion golwg a chlyw.

Efallai y bydd tâp meddygol yn cael ei ddefnyddio i orchuddio'r llygaid yn ystod bob prawf golwg felly rhowch wybod i'r tîm Nyrsys Ysgol os oes gan eich plentyn alergedd i dâp meddygol.

Cynhelir y gwaith sgrinio ym mhob ysgol yn ei thro yn ystod y flwyddyn ysgol.

Byddwch yn derbyn cadarnhad o ganlyniad sgrinio iechyd eich plentyn. Os oes unrhyw broblem, bydd y Nyrs Ysgol yn cynnig apwyntiad i chi gyda hi neu'r Paediatregydd Cymunedol.

**A fyddech cystal â chwblhau'r holiadur amgaeedig a'i ddychwelyd i'r ysgol o fewn tri diwrnod o'i dderbyn.**

**Cyngor Iechyd Ychwanegol**

Mae llau pen yn broblem gyffredin yn y gymuned ac fe gynghorir rhieni i wirio gwallt eu plant bob wythnos a'u trin os bydd angen. Mae'r Nyrs Ysgol ar gael i'ch cynghori os bydd angen.

Mae optegwyr yn rhoi profion golwg am ddim i blant. Os byddwch chi'n pryderu unrhyw bryd am olwg eich plentyn, trefnwch apwyntiad gyda'ch Optometrydd / Optegydd lleol.

**Imiwneiddio**

Cynigir imiwneiddiadau i blant yn unol â'r Polisi Brechu Cenedlaethol.

Mae angen ffurflen gydsynio wedi'i harwyddo ar gyfer bob imiwneiddiad. Bydd hon yn cael ei hanfon atoch cyn bob imiwneiddiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Dîm eich Nyrs Ysgol.

### Eich Tîm Nyrs Ysgol yw:

Mrs Ann Hughes